

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



Astudiaethau Beiblaidd o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Astudiaeth I Cain ac Abel - Addoli Duw



DARLLEN
Genesis 4: 1-16

Mae stori llyfr Genesis yn symud ymlaen yn sydyn o hanes y Creu. Roedd Duw wedi gwneud popeth ac "yr oedd yn dda iawn". Yna bu "cwmp" Adda ac Efa i bechod ac fe syrthiodd barn Duw arnyn nhw ac ar y ddynoliaeth gyfan. Yna fe ddigwyddodd trychineb y llofruddiaeth gyntaf. Mae'n rhaid mai dyma un o'r hanesion tristaf yn hanes bywyd Adda ac Efa. Roedd bod yn anufudd i Dduw wedi arwain at eu mab hynaf yn lladd ei frawd.



Awgrymiadau ar gyfer Darllen Pellach

Matthew 23: 34 a 35

I Ioan 3: 11 a 12

Jwdas 11




ADNOD
ALLWEDDOL
Hebreaid 11: 4

CROESAIR

NI LAWR

- Enw mab hynaf Adda ac Efa.
- Dywedodd Duw wrth Cain y byddai _____ yn llercian wrth y drws.
- Ar ôl y llofruddiaeth, dywedodd Duw wrth Cain bod llef _____ ei frawd yn gweiddi arno o'r pridd.
- Gosododd yr Arglwydd _____ ar Cain.



8

AR DRAWS

- Enw ail fab Adda ac Efa.
- Pan holodd Duw Cain lle oedd Abel, dywedodd nad oedd yn _____.
- Dywedodd Cain wrth Dduw bod ei gosb yn _____ i'w dwyn.
- Aeth i fyw i wlad Nod i'r dwyrain o _____.

Ar yr olwg gyntaf mae'n edrych yn annheg nad oedd Duw yn fodlon derbyn offrwm Cain a'i fod yn hapus gydag offrwm Abel. Wedi'r cwbl roedd y ddau wedi dod â rhywbeth o'u gwaith bob dydd! Beth bynnag, o edrych yn fwy gofalus fe welwn ni bethau sydd yn ein helpu i ddeall y sefyllfa yn well.

C Edrychwch ar I Ioan 3: 11 a 12. I bwy mae Cain yn perthyn yn ôl yr adnodau hyn?

1

C Yn ôl I Ioan 3: 12 pam y lladdodd Cain Abel?

Mae'n edrych yn debyg bod Cain yn genfigennus o Abel. Ddylen ni ddim bod fel Cain

C Yn ol I Ioan 3: 11 sut ddylen ni drin pobl eraill?

C Edrychwch yn ôl i Genesis 3: 17-19. Beth wnaeth Duw i'r ddaear oherwydd pechod Adda?

C Beth ddywedodd Duw fyddai'n tyfu o'r ddaear wedyn?

C Pa eiriau, yn adnod 19, sydd yn awgrymu y byddai yn rhaid i bobl weithio'n galed cyn medru bwyta bara?

Roedd Cain wedi gweithio'n galed ac fe allai fod ei offrwm yn edrych yn well nag un Abel, ond nid dyma yr oedd ar Dduw ei eisiau.

C Edrychwch ar yr Adnod Allweddol.

Beth oedd gan Abel nad oedd gan Cain mohono?

Fe gredodd Abel yn Nuw ac fe fu'n ufudd Iddo, felly fe fedrodd offrymu gwell aberth na Cain. Fe ddaeth Abel at Dduw yn Ei ffordd Ef; sef drwy aberthu anifail oherwydd ei bechodau. Os ydyn ni am fynd at Dduw a chael ein derbyn ganddo, rhaid inni fynd yn ffordd Duw sef drwy Iesu Grist. Ar y groes fe aeth Ef yn aberth yn ein lle.

Roedd Cain am gael ei dderbyn gan Dduw ond ar ei delerau ei hun. Mae llawer o bobl fel hyn. Maen nhw'n dweud wrth Dduw, "Edrych ar yr holl bethau da rydyn ni wedi eu gwneud", neu "Dydw i 'rioed wedi gwneud dim byd gwirioneddol ddrwg" ac felly maen nhw'n credu y dylai Duw eu derbyn nhw i'r nefoedd. Ond fedr neb fod yn ddigon da byth. Rydyn ni gyd wedi gwneud drwg. Rhaid i ni gael ein glanhau â gwaed yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn adnod 7 mae Duw yn rhoi rhybudd i Cain. Ond mae Cain yn gwrthod gwrando. Mae un pechod yn arwain at bechod arall - a phechod arall!

C Llenwch y geiriau coll.

Roedd Cain yn
.....Cain Abel.

Fe ddywedodd Cain gelwydd wrth Dduw er mwyn ceisio cuddio ei
Roedd yn rhaid i DduwCain.



2

1

1

1

1

1

4



DARLENWCH
Genesis 5: 21-32
6:1-15



ADNOD
ALLWEDDOL
Hebraid 11: 5

Astudiaeth 2 Enoch a Noa - Cerdded gyda Duw

Roedd Enoch sawl cenhedlaeth ar ôl Adda ac yn disgyn o Seth, trydydd mab Adda ac Efa. Roedd Enoch yn broffwyd (Jwdas 14 a 15). Fel proffwyd cyntaf Duw daeth â neges arbennig gan Dduw i'r bobl. Rhybuddiodd y bobl y byddai Duw yn barnu pobl ddrwg.



Awgrymiadau ar Gyfer Darllen Pellach


Salm 86: 11-13

Luc 7: 26 a 27

Ioan 14 a 15

COEDEN DEULU

C Llenwch y geiriau coll. Mae'r cyntaf wedi ei gwneud i chi.



C Sut oedd Enoch yn perthyn i Noa?

Fe fu mab Enoch, Methwsela, fyw yn hirach na

neb arall yn y Beibl. Hwyrach mai ef oedd y dyn hynaf i fyw erioed.

C Beth oedd ei oed pan fu farw?

Wnaeth Enoch ddim marw. Am ddau ddyn yn unig y mae'r Beibl yn dweud na wnaethon nhw ddim marw. Y llall oedd Eleias. Edrychwch 2 Brenhinoedd 2: 11.

C Beth ddigwyddodd i Enoch ar ôl ei ddyddiau ar y ddaear?

C Yn yr Adnod Allweddol, rydyn ni'n darllen fod Enoch fel Adda wedi cael rhywbeth. Beth oedd e?

C Yn yr un adnod, am beth y mae Enoch yn cael ei ganmol?

"Mae'n amhosib plesio Duw heb ffydd." Hebraid 11: 6

Mae Enoch a Noa yn cael eu disgrifio fel dau a "rodiodd gyda Duw". Roedd hyn yn golygu eu bod nhw'n byw'n agos at Dduw fel ffrindiau i Dduw. Dim ond nhw eu dau sy'n cael eu disgrifio fel hyn yn y Beibl i gyd.

C Ym mhennod 6, sut mae Noa yn cael ei ddisgrifio?

2

Roedd Noa yn wahanol i bawb arall. Gyda Duw, nid oes neb byth ar goll mewn tyrfa. Mae Duw yn adnabod pob un ohonon ni yn unigol. Ambell dro fe fydden ni'n hoffi pe na bai Duw yn gweld popeth rydyn ni'n ei wneud nac yn clywed popeth rydyn ni'n ei ddweud. Mae'n gwybod ein meddyliau a'n bwriadau - popeth! Roedd pechod a drygioni o amgylch Noa. Ond roedd ef yn amlwg yn gwbl wahanol!

C Wrth edrych i lawr ar y ddaear yn amser Noa beth welodd Duw?

2

C Sut oedd Duw yn teimlo?


2

C Beth benderfynodd Duw ei wneud?

1

Beth mae Duw yn ei weld wrth edrych ar y byd heddiw? Pethau digon tebyg i'r hyn a welodd Ef yn amser Noa - ac mae'n drist iawn. Beth mae E'n ei weld wrth edrych ar eich bywyd chi? Ydych chi'n wahanol i bawb arall oherwydd eich ffydd yn Nuw? Ydych chi am gerdded gyda Duw fel Enoch a Noa? Felly gwnewch Salm 86: 11 yn weddi i chi.

C Ysgrifennwch y rhan gynta o Salm 86: 11 yn y ffordd isod.



2



DARLLENWCH
Genesis 6: 14-22
7: 1-24



ADNOD
ALLWEDDOL
Hebraid 11:7

Astudiaeth 3 Noa a'r Dilyw - Gweithio dros Dduw

Roedd gan Dduw gynllun fel na fyddai yn rhaid iddo gosbi Noa a'i deulu. Fe roddodd gyfarwyddiadau manwl i Noa sut i adeiladu'r Arch.



Awgrymiadau ar Gyfer Darllen Pellach

Mathew 24: 37-39 | 1 Pedr 3: 17-22 | 2 Pedr 2: 4 a 5 | 2 Pedr 3: 3-9

C Pa fath goed oedd Noa i'w defnyddio?

I


C Beth oedd Noa i'w roi ar du mewn a thu allan yr Arch?

I

Roedd hyn ar gyfer iddi ddal dŵr.

C Pa mor fawr oedd yr Arch?

Rhowch y gwahanol fesurau wrth ochr y saethau.



Mae'r mesuriadau hyn yn ddigon tebyg i long deithio fodern. Roedd hi yn hirach na chae pêl droed

C Sawl llawr oedd iddi?

3

Fe gafodd Noa gyfarwyddiadau manwl pwy oedd i fynd i'r Arch gydag ef, yr anifeiliaid, yr adar, yr ymlusgiaid a'r bwyd. Fe ufuddhaodd Noa i Dduw ar unwaith.

C Ysgrifennwch adnod o'r Darlleniad o'r Beibl sydd yn dweud wrthyn ni i Noa fod yn ufudd i orchmynion Duw.

I

C Ym mhennod 7 cyfeirir at lawer o rifau.

Edrychwch ym mha adnod y ceir y rhifau canlynol. Am beth y sonnir?

Rhif	Adnod	Am beth y sonnir...
7 (tair gwaith)		
600		
40		
150		

6

C Pwy gaeodd ddrws yr Arch?

C Faint o bobl gafodd eu hachub yn yr Arch?

(Gellwch gael y rhif o'r Darlleniad o'r Beibl neu I Pedr 3: 20)

C Tua faint o flynyddoedd gymerodd hi i Noa adeiladu'r Arch?

(Edrychwch ar Genesis 5: 32 a 7: 6)

Fe arhosodd Duw yn amyneddgar nes iddi gael ei gorffen (I Pedr 3: 20) ac fe bregethodd Noa gyfiawnder i'r bobl (2 Pedr 2: 5). Ar wahân i deulu agosaf Noa, ni wnaeth neb deimlo'n edifar a chredu. Roedd y bobl i gyd yn para yn eu ffyrdd pechadurus..

C Yn yr Adnod Allweddol, roedd gan Noa rywbeth oedd hefyd gan Abel ac Enoch. Beth oedd e?

Fe gredodd Noa yn Nuw ac ufuddhau i'r hyn oedd Duw yn ei ddweud wrtho, felly fe gafodd ef a'i deulu eu hachub. Roedd eu cymdogion wedi gwrthod Duw. Roedd yn rhaid felly eu cosbi am eu pechod. Os ydyn ni am gael ein hachub rhag ein pechod, rhaid i ni gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist. (Actau 16: 31.)

C Daeth y dŵr o ddau gyfeiriad. Pa ddau?

Fe gafodd y ddaear i gyd ei gorchuddio gan y dyfroedd (adnod 19).

C I ba uchder uwchlaw y mynyddoedd uchaf y cododd y dwr?

Fe gafodd yr Arch a'i llwyth rhyfedd ei chario gan y dyfroedd, a Duw yn gofalu amdani. Mae Duw yn gofalu amdanon ni hefyd ar hyd ein bywyd, ac yn ein cadw'n ddiogel os gwnawn ymddiried ynddo Fe.



Darllenwch
Genesis 8: 1-22
9: 11-16



Adnod
Allweddol
Effesiaid 2: 8

Astudiaeth 4 Noa a'i Deulu - Addoli Duw

Am ddeugain diwrnod fe ddaeth llifogydd ar y ddaear gan guddio hyd yn oed y mynyddoedd uchaf. Ond nid oedd Duw wedi anghofio Noa a'r cwbl oedd yn yr Arch!



Awgrymiadau ar gyfer Darllen Pellach
Ioan 3: 36 Hebreaid 11: 6


CROESAIR

I Lawr

1. Fe agorodd Noa hon i ollwng yr adar allan.
2. Yr aderyn cyntaf i Noa ei ollwng o'r Arch.
3. Fe beidiodd hwn â disgyn o'r awyr.
5. Fe adeiladodd Noa hon i aberthu arni.
7. Fe ddaeth colomen â deilen o'r goeden hon i Noa.

Ar Draws

3. Fe anfonodd Duw hyn dros y ddaear i sychu'r dyfroedd.
4. Dyma'r arwydd a roddodd Duw yn y cwmwl.
5. Fe laniodd yr Arch ar y mynyddoedd hyn.
6. Yr ail aderyn i Noa ei ollwng o'r Arch.
8. Gair arall am addewid. (9: 11).



C Beth a ddigwyddodd ar yr ail ddydd ar bymtheg o'r 7fed mis?

C Beth a ddigwyddodd ar y dydd cyntaf o'r degfed mis?

C Beth a ddigwyddodd ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf pan oedd Noa yn 601 o flynyddoedd oed?

C Beth a ddigwyddodd ar y seithfed dydd ar hugain o'r ail fis pan oedd Noa yn 601 o flynyddoedd oed?

Y peth cyntaf a wnaeth Noa pan oedd ar dir sych unwaith eto oedd adeiladu allor er mwyn offrymu i Dduw. Roedd hyn yn arwydd o'i ddiolchgarwch a'i addoliad i Dduw. Roedd Duw wedi ei achub ef a'i deulu rhag Ei farn ar fyd pechadurus.

C Pan welodd Duw yr aberth beth a ddywedodd na fyddai Ef byth yn ei wneud eto?

6

I

I

I

3

2

C Pa WYTH peth yr addawodd Duw na fyddai byth yn peidio â bod ?

2

Mae hyn yn gyfarnod tragwyddol rhwng Duw a Noa a phob creadur byw. Mae Duw bob amser yn cadw ei addewidion. Mae Duw hefyd yn gwneud llawer o addewidion i ni yn Ei Air.

C Edrychwch ar Ioan 3: 36. Beth mae yr Arglwydd Iesu yn ei addo yn yr adnod hon:-
1. I'r rhai sy'n credu yn y Mab?


2. I'r rhai nad ydyn nhw'n credu yn y Mab neu sy'n gwrthod y Mab?

2

C Fe wnaeth Duw hefyd addo i Noa a'r cenedlaethau oedd yn dilyn na fyddai dilyw eto yn boddi y byd. Arwydd o beth oedd y bwa?

1

Dim ond mewn un ffordd y medrai Noa a'i deulu gael eu hachub rhag y dilyw. Fe wnaeth Duw baratoi a darparu ffordd. Mae wedi trefnu un ffordd ac un ffordd yn unig i ni gael ein hachub rhag barn. Meddai Iesu,



"Myfi yw'r ffordd." (Ioan 14: 6)

"Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall". (Actau 4: 12)

C Edrychwch ar yr Adnod Allweddol a llenwch y ddau air coll isod.

"Trwy..... yr ydych wedi eich achub, trwy"

1

Mae'r achubiaeth mae Duw yn ei chynnig i ni yn dibynnu ar addewidion Duw a'i ras Ef. Nid ydyn ni'n haeddu ei achubiaeth ac ni fedrwn wneud dim i'w ennill. Rhodd Duw ydyw drwy ffydd. FFYDD yw y Gair Allweddol yn y pedair astudiaeth. Mae ymhob un o'r Adnodau Allweddol. Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr ffydd yn Nuw?

Ydych chi, fel Noa, wedi cymryd gair Duw at eich calon, a dangos, drwy fod yn ufudd iddo, eich bod yn credu yr hyn y mae'n ei ddweud?"

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120